5.1

# CAN FUDDUGOL

## AR ANEDWYDDWCH SEFYLLFA DYN FO'N LLETYA AR OL BOD YN CADW TY.

**MESUR—"DEIO BACH."**

[*Rhoddwyd y Gan hon i John Gower, gan Bwyllgor Eisteddfod Bethania, Cwm-Afon, Nadolig* 1859, *o herwydd ei afiechyd er ys hir amser, a chan nad ydyw yn aelod mewn un Budd Gymdeithas, a chanddo wraig a chwech o blant &c. Bwriada ei gyfaill Mr. John Jones, i'r oll o'r elw oddiwrth y Gan hon, i fyned at gynorthwyo y Brawd uchod i fyned i ffynonau Llanwrtyd er amcanu cael adferiad iechyd.*]

O mor gyfnewidiol ydyw,
  Amgylchiadau'r ddaear hon;
Rhyw ofidiau blin digyfryw,
  Beunydd sy'n trywanu'm bron;
Megis ddoe, 'r oedd gwrid ieuenctyd,
  Fel yn dawnsio ar fy ngrudd;
Gwywodd hwnw, heddyw adfyd,
  Sydd yn gwneud fy mron yn brudd.

Bum yn cadw ty, a theulu,
  Dyna dymhor goreu f' oes;
Gwraig a phlant o'm cylch yn gwenu,
  Oedd, heb sôn am wyntoedd croes:
'R oeddwn megis brenin bychan,
  O mor ddedwydd oedd fy sedd;
Pob mwynhad a gefais weithian
  A hoff fynwes lawn o hedd.

Wrth fy mwthyn bach siriolwedd,
  Tyfai'r lili yn yr ardd ;
Rhwng y blodau'n llawn anrhydedd,
  Dan ei choron wlithog hardd:
Pob blodeuyn teg a chwarddai,
  Mewn prydferthwch arni hi ;
Minau 'n cael fy swyno'n ddiau,
  Gan y perlau mân diri'.

Ond, yn nganol fy llawenydd,
  Yn fy mwthyn hawddgar, clyd ;
I fy nheulu rhuthrodd cystudd,
  Aeth a'm cysur bron i gyd :
Fe ymaflodd yn fy mhriod,
  Dygodd ffwrdd ei hiechyd hi ;
Dyna'r dydd dechreuodd trallod,
  Ar fy anwyl blant, a mi.

Och ! yn aberth aeth i angau,
  Hedodd fry y fywiol fflam ;
Soddwyd f'enaid, gan deimladau,
  Fanwyl blant wrth golli 'u mham ;
Dwy ferch fechan oedd fy eiddo,
  Aethant hwythau 'n wael eu gwedd;
Rhaid im ddweyd yn brudd gan wylo,
  Gyda 'u mham maent yn y bedd.

Fe 'm gadawyd i yn unig,
  Yn fy mwthyn prudd, a llwyd ;
Heb fy mhlant na'm gwraig garedig,
  Gylch y bwrdd a'r destlus fwyd ;
Pob hapusrwydd wnaeth fy ngado,
  Pan eu dygwyd o fy ngôl ;
Blodau'r ardd oedd fel yn gwywo,
  Yn bruddglwyfus ar eu hol.

X2C5Z1184J

Fy hoff fwthyn a adewais,
  'R ardd a'i blodau o bob rhyw ;
Ac mewn llety 'r ymsefydlais,
  Lle 'r wyf heddyw'n ceisio byw ;
Mae y gwr, a'r wraig lafurus,
  A'u rhai bychain ddau neu dri ;
Oll yn deulu hynod hapus,
  Ond, gwr unig ydwyf fi.

Ar nosweithiau oer, a rhewllyd,
  Maent i gyd yn ddiwahan;
Yn ymgomnio gylch yr aelwyd,
  Minau draw oddiwrth y tân,
Nid oes cyfrif mawr o honof,
  Pan yn iach, na phan yn glaf ;
Fe'm gadewir i yn anghof,
  'Chydig iawn o sylw gâf.

Pan fo eisiau adgyweiriad,
  Ar fy nillad unrhyw bryd ;
Mi yn olaf fydd yn wastad,
  Gan y wraig a'r plant i gyd:
Saetha'm meddwl draw fel mellten,
  I fy mwthyn anwyl gynt ;
Lle bu i mi briod lawen,
  I'm cysuro 'n llon fy hynt.

Nid oes genyf yn bresenol
  Neb a gydymdeimla'n fwyn ;
R wyf fel dyn mewn gwlad estronol,
  Heb un câr i wrando'm cwyn ;
Neb i drefnu'm cyflog fechan,
  'N ol fy llafur caled iawn ;
Rhaid im wneud yr oll fy hunan,
  Beunydd 'r wyf mewn helbul llawn.

Pan yr oeddwn yn fy mwthyn,
  Nid oedd hyn im bron yn glwy';
F'anwyl wraig trwy 'i threfniant diflin,
  Wnelai'r geiniog bron yn ddwy;
'R arian gynt gynhalient deulu,
  Mewn dedwyddwch bob yr un
A lwyr dreuliaf yn fy llety;
  Maent yn brin i mi fy hun.

Llawer gwaith gan fy nheimladau,
  Yn y fonwent brudd ei gwedd,
Y tywelltais ffrwd o ddagrau
  A eneinient flodau'r bedd,
Lle mae f'anwyl briod siriol,
  A'm rhai bychain ar ei bron,
Wedi'm gadael i yn hollol
  I'r sefyllfa hynod hon.

Mae'n rhagorach fil o weithiau,
  Gael anelwig fwthyn clyd;
Nac ymdroi yn mhlith trysorau
  Unrhyw lety yn y byd—
Rhaid im newid fy sefyllfa,
  Af i fwthyn eto'n llon;
Mynaf un o ferched Efa,
  Hyny rydd wellhad i'm bron.

RICHARD MORGAN.
*(Rydderch ab Morgan.)*

DAVID DAVIS, ARGRAFFYDD, ABERAFAN.